Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Cwblhewch dudalennau *Eiddo yn y DU* os cawsoch y canlynol yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011:

- incwm rhent a derbyniadau eraill o dir ac/neu eiddo yn y DU
- incwm o lety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn y DU neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)
- premiymau sy'n codi o brydlesi tir yn y DU
- taliad fel cymhelliad i fuddsoddi mewn eiddo ar gyfer ei osod (sef premiwm gwrthdro).

Ond dylech ddefnyddio'r tudalennau *Hunangyflogaeth* ar gyfer incwm o:

- camlesi, dyfrffyrdd mewndirol a dociau
- pyllau glo/cloddfeydd a chwareli, gan gynnwys pyllau tywod, pyllau graean, gweithfeydd brics
- hawliau marchnadoedd a ffeiriau, tollau, pontydd a llongau fferi
- ffermio, garddio masnachol neu dir a feddiannir at ddefnydd masnachol arall
- gwestai ac ati
- gosod llety wedi'i ddodrefnu yn eich cartref sydd i bob pwrpas yn fasnach, er enghraifft os ydych yn cadw gwesty neu'n cynnig gwely a brecwast, yn hytrach na chadw lletywyr
- hawliau tramwy os ydy'r tir y mae'r hawliau tramwy yn berthnasol iddo yn rhan o'ch masnach.

Defnyddiwch dudalennau eraill eich Ffurflen Dreth ar gyfer unrhyw incwm o:

- hawliau tramwy os nad yw'r tir y mae'r hawliau tramwy yn berthnasol iddo'n cael ei ddefnyddio ar gyfer eich masnach na'ch busnes gosod (blwch 16 ar dudalen TR 3)
- derbyniadau ôl-derfynu (hynny yw incwm gosod a dderbynnir ar ôl i'r busnes rhentu ddod i ben, ac sydd heb ei drethu'n flaenorol) (blwch 14 ar dudalen Ai 1 y tudalennau *Gwybodaeth Ychwanegol*)
- Difidendau a dosbarthiadau Ymddiriedolaeth Buddsoddi mewn Ystâd Real a Chronfa Buddsoddi Awdurdodedig mewn tir (blwch 16 ar dudalen TR 3).

Os nad ydych yn sicr p'un a ddylech gwblhau'r tudalennau *Eiddo yn y DU* neu'r tudalennau *Hunanasesiad* dylech gysylltu â ni.

Defnyddiwch y tudalennau *Tramor* ar gyfer incwm o dir neu eiddo tramor, ac eithrio ar gyfer llety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn yr AEE. Os ydych am hawlio rhyddhad credyd treth dramor ar gyfer unrhyw dreth dramor a dalwyd ar eich llety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn yr AEE, dylech gwblhau'r adran o dan y pennawd 'Treth dramor a dalwyd ar gyflogaeth, hunangyflogaeth ac incwm arall' ar dudalen F 6 y tudalennau *Tramor*.

Os ydych yn cael incwm o eiddo ar osod fel rhan o'ch incwm o bartneriaeth, defnyddiwch y tudalennau *Partneriaeth (llawn)*.

Efallai y bydd angen i chi gwblhau tudalennau *Crynhoi enillion cyfalaf* os ydych wedi prynu neu werthu eiddo yr oeddech yn derbyn incwm drwy ei osod.

Cyfrifon

Os ydych yn paratoi cyfrifon ar gyfer incwm a gewch drwy osod eich eiddo a chawsant eu paratoi hyd at 5 Ebrill 2011, trosglwyddwch y ffigurau i'r blychau priodol ar y tudalennau *Eiddo yn y DU*. Os cawsant eu paratoi hyd at ddyddiad arall, bydd yn rhaid i chi ddosrannu'r ffigurau yn y setiau cyfrifon sy'n cwmpasu'r flwyddyn 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011.

Os dywedwyd wrthych eich bod o fewn y rhaglen Rheoli Diffygdalwyr Bwriadol, dylech gwblhau pob blwch perthnasol ar dudalennau UKP 1 a UKP 2 gan ddosrannu'r ffigurau fel y bo angen. Os dywedwyd wrthych eich bod yn destun y gofyniadau hysbysu ychwanegol, rhaid i chi hefyd baratoi cyfrifon. Anfonwch gopi o'r cyfrif elw a cholled manwl, mantolen a chyfrifiannau am y flwyddyn i 5 Ebrill 2011 gyda'ch

ffurflen dreth. Dylech ddynodi ac esbonio natur a swm unrhyw ffigurau a gynhwyswyd yn y cyfrifon hynny na ellir eu gwirio drwy gofnodion materol neu electronig a wnaed ar y pryd i ddangos bod trafodion gwaelodol wedi digwydd, neu gadarnhad ysgrifenedig nad yw ffigurau o'r fath wedi eu cynnwys.

Manylion yr eiddo yn y DU

Blwch 3 ***Os oes gennych unrhyw incwm o eiddo ar osod ar y cyd***

Os ydych yn berchen ar ac yn gosod eiddo ar y cyd gydag un neu ragor o bobl eraill, dylech gynnwys eich cyfran chi o'r incwm a'ch cyfran chi o'r treuliau yn unig. Ond os mai dim ond eich cyfran chi o'r incwm (neu'r golled), ar ôl didynnu treuliau, a hysbysebir i chi, yna nodwch yr incwm ym mlwch 5 neu flwch 18, neu'r golled ym mlwch 9 neu flwch 27, fel y bo'n briodol. Nodwch enw a chyfeiriad y person sy'n paratoi cofnodion yr eiddo yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 19 ar eich ffurflen dreth.

Os ydych chi a'ch priod yn byw gyda'ch gilydd, fel arfer caiff unrhyw incwm drwy osod eiddo a dderbyniwch ar y cyd ei drin fel petai yn eiddo i'r ddau ohonoch mewn cyfrannau cyfartal (hyd yn oed os ydych yn ei berchen mewn cyfrannau nad ydynt yn hafal), felly caiff y ddau ohonoch eich trethu ar hanner yr incwm. Fodd bynnag os oes gennych hawl i'r incwm mewn cyfrannedd i'ch cyfran, gallwch wneud dewis ar ffurflen 17 er mwyn cael eich trethu ar y sail wirioneddol. Cysylltwch â ni os ydych am wneud dewis. Caiff partneriaid sifil a gofrestrodd partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005 eu trin yn yr un modd a pharau priod.

Blwch 4 ***Os ydych yn hawlio rhyddhad Gosod Ystafell ac mae eich rhent yn £4,250 neu lai***

Os ydych yn gosod ystafell neu ystafelloedd wedi'u dodrefnu yn eich cartref eich hun (ac eithrio ystafell a ddefnyddir yn gyfan gwbl fel swyddfa) ac roedd yr incwm a gawsoch yn llai na'r rhyddhad am Osod Ystafell sef £4,250 (neu £2,125 os gosodir eiddo ar y cyd), rhowch 'X' yn y blwch. Mae 'Cyfanswm yr incwm' yn golygu'r rhent am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011 yn ogystal ag incwm a gewch am ddarparu gwasanaethau. Os mai dyna eich unig incwm drwy osod eiddo, dyna'r cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud ar y tudalennau *Eiddo yn y DU*.

Ond, os oedd cyfanswm eich incwm o'r math hyn o osodiadau yn fwy na £4,250 gallwch ddewis rhwng:

- talu treth ar y swm sy'n uwch na £4,250 yn unig (neu £2,125 os caiff ei osod ar y cyd) – heb ddidynnu treuliau. Os felly, dylech gynnwys y rhent ym mlwch 18 a'r swm a eithrir (£4,250 neu £2,125 os caiff ei osod ar y cyd) ym mlwch 35, neu
- cyfrifo eich elw drwy osod eiddo yn y dull arferol – hynny yw, rhent gros (a gynhwyswyd ym mlwch 18) llai'r treuliau caniataol (blychau 22 i 27), gan adael blwch 35 yn wag. Efallai y byddwch am wneud hyn os er enghraifft rydych wedi gwneud colled.

Disgrifir y cynllun Rhentu ystafell yn fanylach yn Nhaflen Gymorth 223 *Rent a Room for traders*.

Llety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn y DU neu AEE

Mae rheolau arbennig ar gyfer eiddo sy'n cael eu gosod fel llety gwyliau wedi'i ddodrefnu. Mae'r rheolau hyn yn eich caniatáu i osod unrhyw golled sy'n codi, drwy osod llety gwyliau wedi'i ddodrefnu, yn erbyn eich holl incwm trethadwy arall, ac nid yn unig yn erbyn incwm arall o osod eiddo. Rhaid i chi gyfrifo'r elw neu'r golled o lety gwyliau wedi'i ddodrefnu ar wahân i weld os gallwch gymryd mantais o'r rheolau arbennig hyn.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Ystyrir bod llety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn eiddo yn y DU neu AEE:
- sydd ar gael ar gyfer ei osod fel llety gwyliau ar sail fasnachol am 140 diwrnod neu ragor yn ystod y flwyddyn
- sy'n cael ei osod yn fasnachol mewn gwirionedd fel llety gwyliau am 70 diwrnod neu fwy yn ystod y flwyddyn, ac
- yn un lle na fydd unrhyw gyfnodau o feddiannaeth tymor hir yn fwy na 155 diwrnod yn y flwyddyn.

Mae cyfnod o feddiannaeth tymor hir yn golygu cyfnod parhaol o fwy na 31 diwrnod, pan fo'r llety ym meddiant yr un person; ni chaiff ei osod fel llety gwyliau.

Os oes gennych fwy nag un uned sy'n cael ei gosod fel llety gwyliau, gellir bodloni'r amod gosod am 70 diwrnod drwy gyfartalu nifer y diwrnodau y bydd sawl eiddo, o'u cyfrif gyda'i gilydd, wedi eu gosod ar sail fasnachol fel llety gwyliau, ar yr amod bod y ddau amod arall yn cael eu bodloni ar bob eiddo.

Er mwyn penderfynu p'un a oes gennych incwm o lety gwyliau wedi'u ddodrefnu, y flwyddyn i'w hystyried yw:
- y flwyddyn dreth o 6 Ebrill 2010 tan 5 Ebrill 2011, neu
- os dechreuoch osod yn ystod y flwyddyn, y 12 mis o'r dyddiad y cafodd ei osod gyntaf, neu,
- os gorffennoch osod yn ystod y flwyddyn, y 12 mis hyd at ac yn cynnwys y dyddiad y cafodd ei osod am y tro olaf.

Blwch 5 Incwm – *nodwch swm y rhent ac unrhyw incwm am wasanaethau a ddarparwyd i denantiaid*

Nodwch gyfanswm yr incwm o'r holl osodiadau gwyliau yn y DU neu AEE – hynny yw, y rhent am y flwyddyn i 5 Ebrill 2011 ac unrhyw incwm am wasanaethau a ddarparwyd gennych.

Blychau 6 i 12

Yn gyffredinol gallwch hawlio unrhyw gostau a dalwyd gennych er mwyn ennill elw o'ch busnes gosodiadau gwyliau. Os yw cyfanswm eich incwm drwy osod eiddo am y flwyddyn, gan gynnwys llety gwyliau wedi'i ddodrefnu, cyn treuliau, yn llai na £70,000 does dim rhaid i chi restru treuliau ar wahân. Yn lle hynny rhowch gyfanswm y treuliau mewn perthynas â llety gwyliau wedi'i ddodrefnu ym mlwch 9. Er na allwch hawlio costau cyfalaf – megis treuliau mewn perthynas â phrynu, neu welliannau, ychwanegiadau a newidiadau i dir, eiddo, cyfarpar, dodrefn amrywiol neu gelfi – efallai y gallwch hawlio lwfansau cyfalaf neu ddidyniad ar gyfer adnewyddu (gweler isod a thudalen UKPN 5). Os byddwch yn cynnwys traul o dan un pennawd pan fo pennawd arall yr un mor briodol, ceisiwch fod yn gyson o un flwyddyn i'r llall.

Blwch 6 *Rhent a dalwyd, atgyweiriadau, yswiriant a chostau gwasanaethau a ddarparwyd*

Atgyweiriadau

Dylech gynnwys treuliau sy'n atal yr eiddo rhag dirywio ym mlwch 6, er enghraifft, paentio allanol a mewnol, triniaeth yn erbyn tamprwydd, glanhau cerrig, atgyweirio'r to, atgyweirio dodrefn, atgyweirio unrhyw fath o beiriannau a gynhwysir gyda'r eiddo.

Adnewyddiadau

Os nad ydych yn hawlio lwfansau cyfalaf gallwch hawlio costau amnewid dodrefn, eitemau dodrefnu a pheiriannau a ddarparwyd gyda'ch eiddo. Gallwch gynnwys y gost o amnewid eitemau bach hefyd, er enghraifft cyllyll a ffyrc, ond os gwnewch hynny, ni allwch hawlio'r costau gwreiddiol. Os cawsoch unrhyw arian am yr eitemau a gawsant eu hamnewid dylech ddidynnu'r swm hwnnw o gost amnewid yr eitemau. Peidiwch â hawlio costau ar gyfer unrhyw elfen o welliant o'i gymharu â'r eitem wreiddiol.

Treuliau'r eiddo

Cynhwyswch y canlynol ym mlwch 6:
- unrhyw renti a dalwch o dan brydles ar eiddo rydych yn ei osod fel llety gwyliau wedi'i ddodrefnu
- trethi busnes
- treth gyngor
- trethi dŵr
- rhenti tir neu feu duties yn yr Alban
- yswiriant ar gyfer yr eiddo a'r cynnwys
- costau gwasanaethau a ddarparwch megis garddio, cludo, glanhau, dŵr poeth cymunedol ac ati.

Caniateir taliadau am yswiriant yn erbyn colli rhenti hefyd, ond os byddwch yn gwneud cais i'r cwmni yswiriant dylid cynnwys unrhyw arian a gewch fel incwm ym mlwch 5.

Ni allwch hawlio lwfans traul wrth gyfrifo eich elw ar eich llety gwyliau wedi'i ddodrefnu. Gallwch hawlio naill ai lwfansau cyfalaf neu ddidyniad adnewyddiadau mewn perthynas â'ch costau cyfalaf.

Blwch 7 ***Llog ar fenthyciad a chostau ariannol eraill***

Dylech gynnwys:
- costau trefnu'r benthyciad neu drefniant ariannol amgen i brynu'r eiddo rydych yn ei osod
- llog ar fenthyciad o'r fath a thaliadau ariannol amgen

Blwch 8 ***Ffioedd cyfreithiol, rheolaeth a rhai proffesiynol eraill***

Gellir didynnu costau rheolaeth a delir i asiant sy'n cynnwys treuliau casglu rhent, hysbysebu a threuliau gweinyddol tebyg.

Gellir didynnu'r ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol arferol ar gyfer adnewyddu prydles (os ydy'r brydles am lai na 50 mlynedd). Gallwch hefyd ddidynnu'r ffioedd proffesiynol a dalwch er mwyn troi allan tenant anfoddhaol, gyda'r bwriad o ail osod, neu apelio yn erbyn gorchymyn prynu gorfodol.

Ni allwch ddidynnu:
- treuliau a dalwyd mewn perthynas â gosod neu isosod eiddo am fwy na blwyddyn am y tro cyntaf. Mae'r rhain yn cynnwys costau llunio prydles, ffioedd a chomisiwn asiantau a thir fesurwyr
- unrhyw gostau sydd ynghlwm wrth bremiwm wrth adnewyddu prydles
- ffioedd ar gyfer caniatâd cynllunio neu gofrestru teitl wrth brynu eiddo.

Blwch 9 ***Treuliau eiddo caniataol eraill***

Dylech gynnwys unrhyw dreuliau eraill y busnes rhentu llety gwyliau nas cynhwyswyd ym mlychau 6 i 8 ym mlwch 9, er enghraifft deunyddiau ysgrifennu, ffôn, teithiau busnes a chostau amrywiol eraill.

Pan fyddwch yn isosod yr eiddo ac rydych chi (neu denant cynharach) wedi talu premiwm i'ch landlord pan ganiatawyd y brydles, efallai y byddwch yn gallu gwneud cais am ran o'r premiwm a dalwyd os bydd y premiwm yn agored i dreth fel incwm eich landlord. Os nad ydych yn sicr ynghylch sut i gyfrifo'r swm y gallwch ei gynnwys ym mlwch 9, gofynnwch i ni neu eich cynghorydd treth.

Blwch 10 ***Addasiad ar gyfer defnydd preifat – os yw'r treuliau'n cynnwys unrhyw symiau nad ydynt at ddibenion y busnes***

Ni chaniateir treuliau personol fel didyniad, felly os ydych wedi cynnwys unrhyw symiau nad oeddent yn gyfan gwbl at ddefnydd y busnes ym mlwch 6 i 9, nodwch y gyfran breifat (difusnes) ym mlwch 10. Er enghraifft, os ydych yn gosod eiddo am wyth mis yn unig mewn blwyddyn ac rydych yn ei ddefnyddio eich hun am y pedwar

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

mis arall, gallech roi'r gost lawn o yswirio'r eiddo am flwyddyn ym mlwch 6. Os gwnewch hyn, dylech gynnwys y gost ar gyfer y pedwar mis difusnes ym mlwch 10. Os bydd angen cymorth arnoch i gyfrifo'r defnydd busnes a phreifat, yna cysylltwch â ni.

Blwch 11 *Taliadau mantoli*

Os byddwch yn gwaredu eitem (hynny yw, yn ei gwerthu neu ei rhoi am ddim) neu os peidiwch â defnyddio eitem yn eich busnes yr oeddech wedi hawlio lwfansau cyfalaf ar ei chyfer yn ystod y flwyddyn efallai y bydd addasiad a elwir yn dâl mantoli yn codi. Mae Taflen Gymorth 252 *Capital allowances and balancing charges* yn rhoi manylion ynglŷn â chyfrifo'r tâl hwn.

Blwch 12 *Lwfansau cyfalaf*

Gallwch hawlio lwfansau treth a elwir yn lwfansau cyfalaf ar gyfer y gost o brynu a gwella cerbydau a chyfarpar. Er enghraifft, faniau, ceir, offer, cyfrifiaduron, dodrefn a gosodion (hyd yn oed os prynwyd yr eitemau drwy hurbwrcas) a ddefnyddiwch yn eich busnes gosod llety gwyliau. Nid yw costau eitemau o'r fath, neu'r dibrisiant arnynt, yn draul ganiataol wrth gyfrifo eich elw trethadwy. Fodd bynnag, ni allwch hawlio cyfalaf ar gyfer cyfarpar a pheiriannau (megis dodrefn neu osodion) ar gyfer eu defnyddio mewn tŷ annedd ac oes gennych fusnes gosod eiddo, oni bai ei fod yn gymwys fel busnes gosod llety gwyliau wedi'i ddodrefnu.

Ceir fwy o wybodaeth ynglŷn â lwfansau cyfalaf yn y nodiadau ar gyfer blychau 29 i 32 ac yn Nhaflen Gymorth 252 *Capital allowances and balancing charges*. Ychwanegwch unrhyw symiau a hawlir am lwfansau cyfalaf at ei gilydd a nodwch gyfanswm y rhain ym mlwch 12.

Blwch 13 *Elw am y flwyddyn*

I gyfrifo'r elw neu'r golled dilynwch y cyfarwyddiadau ar y tudalennau *Eiddo yn y DU* neu defnyddiwch y Daflen Waith isod.

Taflen Waith ar gyfer elw neu golled llety gwyliau wedi'i ddodrefnu

Incwm *blwch 5*	A	£
Addasiad ar gyfer defnydd preifat *blwch 10*	B	£
Taliadau mantoli *blwch 11*	C	£
Cyfanswm *blychau A i C*	D	£
Llai		
Treuliau *blwch 6*	E	£
Llog ar fenthyciad ac ati *blwch 7*	F	£
Cyfreithiol, rheolaeth ac ati *blwch 8*	G	£
Arall *blwch 9*	H	£
Lwfansau cyfalaf *blwch 12*	I	£
Cyfanswm *blychau E i I*	J	£
Elw neu golled *blwch D llai blwch J*	K	£

Os mai elw sydd ym mlwch K, copïwch flwch K i flwch 13. Os mai colled sydd ym mlwch K, copïwch flwch K i flwch 14.

Colledion ar lety gwyliau wedi'i ddodrefnu

Blwch 14 ***Colled am y flwyddyn***

I gyfrifo'r elw neu'r golled dilynwch y cyfarwyddiadau ar y tudalennau *Eiddo yn y DU* neu defnyddiwch y Daflen Waith uchod.

Colled a ddefnyddiwyd yn erbyn incwm ac enillion eraill

Gallwch ddefnyddio unrhyw golledion sy'n codi ar lety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn y DU neu AEE i ostwng swm y dreth a dalwch ar incwm neu enillion eraill gan gynnwys unrhyw incwm o osod eiddo arall. Mae hyn oherwydd ein bod yn trin unrhyw golled ar eich llety gwyliau wedi'i ddodrefnu fel petai'n golled masnachu. Mae Taflen Gymorth 227 *Losses* yn esbonio'r ffyrdd gwahanol y gall colledion masnachu gael eu gosod yn erbyn incwm arall – mae'r union reolau yn gymwys ar gyfer colledion llety gwyliau wedi'i ddodrefnu.

Blwch 15 ***Colled a wrthbwyswyd yn erbyn incwm arall a gafwyd drwy osod eiddo***

Gallwch osod unrhyw ran o golled ym mlwch 14, nad yw wedi ei osod yn erbyn incwm arall yn erbyn incwm arall a gawsoch o osod eiddo.

Blwch 16 ***Colled a wrthbwyswyd yn erbyn cyfanswm eich incwm yn 2010-11***

Nodwch swm y golled rydych am ei gwrthbwyso yn erbyn incwm arall y flwyddyn hon ym mlwch 16. Os ydych am osod colledion llety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn erbyn enillion cyfalaf, nodwch swm y golled ym mlwch 14 ar dudalennau *Crynhoi Enillion Cyfalaf*.

Blwch 17 ***Colled a ddygwyd yn ôl i flynyddoedd cynharach***

Os ydych am i'r rhyddhad ar gyfer y golled gael ei gyfrifo drwy gyfeirio at flwyddyn neu flynyddoedd cynharach, nodwch swm y golled i'w ddefnyddio yn y ffordd hon ym mlwch 17. Rhaid i chi hawlio'r golled gyfan ym mlwch 14. Dim ond os na fydd y golled wedi ei defnyddio'n gyfan gwbl gan y cais cyntaf y gallwch wneud cais arall. A gallwch hawlio rhyddhad unwaith yn unig ar gyfer pob punt o golled.

Incwm o eiddo

Os ydych yn berchen ar dir neu eiddo yn y DU sy'n cynhyrchu rhent neu dderbyniadau eraill byddwn yn eich trin fel petaech yn cynnal busnes rhentu (p'un a oes gennych un eiddo neu nifer ohonynt).

Blwch 18 ***Cyfanswm y rhent ac incwm arall o eiddo ar osod***

Nodwch gyfanswm yr incwm o'ch busnes gosod eiddo gan gynnwys unrhyw elw o lety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn y DU o flwch 13 ym mlwch 18. Mae incwm yn cynnwys derbyniadau arian parod ac mewn nwyddau. Mae'n drethadwy pan gaiff ei ennill hyd yn oed os derbyniwch ef yn hwyrach (felly dylid cynnwys unrhyw incwm rhent ar gyfer 2010-11 a dalwyd ar ôl 5 Ebrill 2011). Peidiwch â chynnwys rhent am y flwyddyn i 5 Ebrill 2012 a dalwyd o flaen llaw (yn ystod y flwyddyn i 5 Ebrill 2011).

Dylech gynnwys incwm o:
- tenantiaeth
- cytundebau prydlesu neu drwyddedu dros eich tir neu eich eiddo
- llety wedi ei ddodrefnu, heb ei ddodrefnu, masnachol a domestig
- unrhyw dir.

Mae derbyniadau heblaw rhent yn agored i dreth hefyd, er enghraifft:
- taliadau rhent a rhent tir
- incwm drwy ganiatáu hawliau hela
- incwm drwy adael i eraill adael gwastraff ar eich tir
- derbyniadau a gewch gan griw ffilmio sy'n talu am ffilmio ar eich tir
- incwm am ddefnyddio carafán neu gwch preswyl sydd wedi ei leoli mewn man sefydlog

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

- hawliau tramwy os ydy'r tir y mae'r hawliau tramwy yn cyfeirio ato yn cael ei ddefnyddio yn eich busnes gosod
- grantiau gan awdurdodau lleol tuag at gost atgyweiriadau
- incwm o dir ac eiddo mewn Ymddiriedolaethau Ardal Fenter.

Os ydych eiddo'n cael ei osod wedi ei ddodrefnu, dylech gynnwys yma, unrhyw symiau a delir i chi gan y tenant am ddefnyddio'r dodrefn. Dylech eithrio premiymau ar gyfer caniatáu prydlesi a phremiymau gwrthdro (nodwch y rhain ym mlychau 20 ac 21). Os didynnwyd treth (sydd i'w nodi ym mlwch 19) o'ch incwm gosod dylech sicrhau mai'r ffigur ym mlwch 18 yw'r swm cyn didynnu treth.

Blwch 19 ***Treth a ddidynnwyd o incwm ym mlwch 18***

Dylai'r blwch hwn gael ei gwblhau dim ond os ydych yn landlord dibreswyl.

Blwch 20 ***Premiymau am ganiatáu prydles***

Os yw'r incwm o'ch busnes gosod yn cynnwys premiymau a dalwyd er mwyn caniatáu prydles a chyfandaliadau eraill ac ati a roddwyd mewn cysylltiad â hawl i feddiannu eiddo, trethir y taliadau hyn ar sail arbennig.

Yn fras, ar gyfer prydlesi dros 50 mlynedd byddwn yn trin y premiwm cyfan fel derbyniad cyfalaf ac felly nid yn rhan o incwm eich busnes.

Ar gyfer prydlesi o hyd at 50 mlynedd byddwn yn trin y premiwm yn rhannol fel cyfalaf ac yn rhannol fel incwm, dylech gynnwys yr incwm yn unig ym mlwch 20.

Os ydych wedi aseinio prydles heb ofyn am dâl gallai fod tâl premiwm o hyd. Cysylltwch â ni os nad ydych yn siŵr p'un a yw hyn yn effeithio arnoch chi.

Taflen Waith ar gyfer premiymau er mwyn caniatáu prydles

Premiwm	**A**	£
Nifer y cyfnodau cyflawn o 12 mis yn y brydles, gan anwybyddu'r 12 mis cyntaf	**B**	
50 llai blwch B	**C**	
Blwch C wedi'i rannu â 50	**D**	
Blwch A wedi'i luosi â blwch D *Copïwch flwch E i flwch 20*	**E**	£

Blwch 21 ***Premiymau gwrthdro a chymhellion ariannol***

Nodwch ym mlwch 21 unrhyw daliad (neu fudd arall) a gawsoch fel cymhelliad i fuddsoddi mewn unrhyw eiddo (heblaw eich prif gartref) ar gyfer ei osod (ystyrir hwn yn 'bremiwm gwrthdro').

Treuliau'r eiddo

Os ydy cyfanswm eich incwm o osod eiddo yn y flwyddyn, gan gynnwys incwm o lety gwyliau wedi'i ddodrefnu, cyn treuliau yn llai na £70,000, does dim rhaid i chi restru'r treuliau ar wahân. Yn lle hynny rhowch gyfanswm y treuliau (llai unrhyw dreuliau wrth osod llety gwyliau wedi'i ddodrefnu) ym mlwch 27.

Yn gyffredinol gallwch hawlio costau cynnal eich busnes fel didyniad ond ni allwch wneud cais am unrhyw gostau cyfalaf fel treuliau'r eiddo. Mae'r rhain yn cynnwys treuliau mewn perthynas â phrynu neu werthu, neu wella, ychwanegiadau a newidiadau i dir ac eiddo, cyfarpar, mân ddodrefn neu gelfi. Ond efallai y gallech hawlio didyniad adnewyddu. Gweler y nodiadau ar gyfer blwch 23.

Blwch 22 ***Rhenti, trethi, yswiriant, rhent tir ac ati***

Dylech gynnwys:
- rhent a dalwch o dan brydles ar gyfer eiddo rydych yn ei osod
- trethi busnes
- Treth Gyngor
- trethi dŵr
- rhenti tir
- yswiriant am yr eiddo a'r cynnwys.

Mae yswiriant rhag colli rhent yn gost ganiataol hefyd ond os ydych yn hawlio swm o dan eich polisi yswiriant dylech gynnwys unrhyw arian a gewch fel incwm ym mlwch 18.

Blwch 23 ***Atgyweiriadau i eiddo, gwaith cynnal a chadw ac adnewyddiadau***

Atgyweiriadau

Dylech gynnwys ym mlwch 23 treuliau sy'n atal yr eiddo rhag dirywio, er enghraifft:
- paentio allanol a mewnol
- triniaeth yn erbyn tamprwydd
- glanhau cerrig
- atgyweirio'r to
- atgyweirio dodrefn
- atgyweirio unrhyw fath o beiriannau a gyflenwyd gyda'r eiddo.

Adnewyddiadau

Os nad ydych yn hawlio lwfansau cyfalaf neu lwfans traul, gallwch hawlio costau amnewid mân ddodrefn a chelfi a pheiriannau a ddarparwyd gyda'ch eiddo. Gallwch gynnwys y gost o amnewid eitemau bach hefyd, er enghraifft cyllyll a ffyrc, ond os gwnewch hyn, ni allwch hawlio'r costau gwreiddiol. Os cawsoch unrhyw arian am yr eitemau a gafodd eu hamnewid dylech ddidynnu'r swm hwnnw o gost amnewid yr eitemau. Peidiwch â hawlio unrhyw elfen o welliant o'i gymharu â'r eitem wreiddiol.

Blwch 24 ***Llog ar fenthyciad a chostau ariannol eraill***

Dylech gynnwys:
- costau trefnu'r benthyciad neu drefniant ariannol amgen i brynu'r eiddo rydych yn ei osod
- llog ar fenthyciad o'r fath neu daliadau ariannol amgen.

Blwch 25 ***Ffioedd cyfreithiol, rheolaeth a phroffesiynol eraill***

Gellir didynnu ffioedd rheolaeth a delir i asiant ar gyfer casglu rhenti, hysbysebu a threuliau gweinyddol tebyg.

Gellir didynnu'r ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol arferol ar gyfer adnewyddu prydles os yw'r brydles am lai na 50 mlynedd. Gallwch hefyd ddidynnu'r ffioedd proffesiynol a dalwch er mwyn troi allan tenant anfoddhaol, gyda'r bwriad o ail osod, neu wrth apelio yn erbyn gorchymyn prynu gorfodol.

Ni allwch ddidynnu:
- treuliau a dalwyd mewn perthynas â gosod neu isosod eiddo am fwy na blwyddyn am y tro cyntaf. Mae'r rhain yn cynnwys ffioedd cyfreithiol er enghraifft costau llunio prydles, ffioedd a chomisiwn asiantau a thir fesurwyr
- unrhyw gostau sydd ynghlwm wrth bremiwm wrth adnewyddu prydles
- ffioedd ar gyfer caniatâd cynllunio neu gofrestru teitl wrth brynu eiddo.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Blwch 26 ***Costau gwasanaethau a ddarparwyd gan gynnwys cyflogau***

Os ydych hefyd yn darparu gwasanaethau i'ch tenantiaid, er enghraifft, garddio, cludiant, glanhau neu rywbeth sy'n debyg i ddŵr poeth cymunedol, gallwch hawlio'r treuliau mewn perthynas â hyn os gallwch ddangos eu bod ar gyfer yr eiddo ar osod. Os derbyniwch unrhyw incwm am y gwasanaethau a ddarparwch dylech gynnwys hwn fel incwm o osod eiddo.

Blwch 27 ***Treuliau eraill yr eiddo***

Dylech gynnwys unrhyw dreuliau eraill y busnes gosod nas cynhwyswyd ym mlychau 22 i 26 ym mlwch 27, er enghraifft deunyddiau ysgrifennu, ffôn, teithiau busnes a chostau amrywiol eraill.

Pan fyddwch yn isosod yr eiddo ac rydych chi (neu denant cynharach) wedi talu premiwm i'ch landlord pan ganiatawyd y brydles, efallai y byddwch yn gallu gwneud cais am ran o'r premiwm a dalwyd os bydd y premiwm yn agored i dreth fel incwm eich landlord. Os nad ydych yn sicr ynghylch sut i gyfrifo'r swm y gallwch ei gynnwys ym mlwch 27, gofynnwch i ni neu eich cynghorydd treth.

Cyfrifo'ch elw trethadwy neu eich colled

Blwch 28 ***addasiad ar gyfer defnydd preifat***

Ni chaniateir treuliau personol fel didyniad, felly os ydych wedi cynnwys unrhyw symiau nad oeddent yn gyfan gwbl ar gyfer y busnes gosod ym mlychau 22 i 27, nodwch y gyfran breifat ym mlwch 28. Er enghraifft, os ydych yn gosod eiddo am wyth mis o'r flwyddyn yn unig ac rydych yn ei ddefnyddio eich hun am y pedwar mis arall, gallech roi cost flynyddol lawn yswirio'r eiddo ym mlwch 22. Os gwnewch hyn, dylech gynnwys y gost ar gyfer y pedwar mis ym mlwch 28. Os bydd angen cymorth arnoch i gyfrifo'r defnydd busnes a phreifat, yna cysylltwch â ni neu eich cynghorydd treth.

Blychau 29 i 32 ***Lwfansau cyfalaf***

Ni allwch ddidynnu cost prynu, newid, adeiladu, gosod neu wella asedion 'sefydlog' er enghraifft eiddo, cyfarpar neu beiriannau. Ni allwch ychwaith wneud cais am ddibrisiant neu golledion pan waredir asedion o'r fath. Yn lle hynny, gallwch hawlio lwfansau treth a elwir yn lwfansau cyfalaf, ar gyfer cost prynu a gwneud gwelliannau i gerbydau a chyfarpar, er enghraifft faniau, ceir, offer, cyfrifiaduron a dodrefn busnes (hyd yn oed os prynwyd yr eitemau drwy hurbwrcas) a ddefnyddiwyd yn eich busnes gosod eiddo. Ond **ni allwch** hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer cyfarpar a pheiriannau (megis celfi a gosodiadau) a ddefnyddir mewn tŷ annedd os oes gennych fusnes gosod eiddo, oni bai ei fod yn gymwys fel busnes gosod llety gwyliau. Ceir sawl math gwahanol o lwfansau cyfalaf – gweler y nodiadau ar gyfer blychau 30 i 32.

Mae'r nodiadau isod yn gymwys dim ond os oes gennych gyfnod cyfrifyddu 'safonol' o 12 mis ac mae crynodeb o'r lwfansau ar gael. Os yw eich cyfnod cyfrifyddu'n fyrrach neu'n hwy na blwyddyn, neu os dechreuodd cyn 6 Ebrill 2010, neu os ydych am wybod rhagor am lwfansau cyfalaf, yna darllenwch Daflen Gymorth 252 *Capital allowances and balancing charges* (sy'n cynnwys enghreifftiau), neu cysylltwch â ni neu eich cynghorydd treth.

Defnydd busnes a phreifat

Pan fyddwch yn defnyddio eitem o gyfarpar at ddibenion busnes yn ogystal â phreifat, dylai'r lwfans a hawliwch gael ei ostwng gan eich defnydd preifat o'r eitem. I wneud hyn, cyfrifwch y lwfansau cyfalaf sy'n ddyledus ar gyfer pob eitem sydd ag unrhyw ddefnydd preifat ar wahân gan ddefnyddio 'cronfa ased unigol' a gostwng y lwfansau a hawliwch gan y gyfran am ddefnydd preifat (gweler Enghraifft 1 ar dudalen UKPN 10).

Blwch 29 ***Taliadau mantoli***

Os yn ystod y flwyddyn, byddwch yn gwaredu (hynny yw, gwerthu neu roi am ddim) neu'n peidio â defnyddio eitem yn eich busnes y buoch yn hawlio lwfansau cyfalaf ar ei chyfer, efallai y bydd addasiad a elwir yn dâl mantoli. Mae Taflen Gymorth 252 *Capital allowances and balancing charges* yn rhoi manylion ynglŷn â sut i gyfrifo'r tâl hwn.

Os oedd gennych eiddo a oedd yn gymwys ar gyfer Lwfans Adnewyddu Eiddo Busnes (gweler y nodyn ar gyfer blwch 31) ac o fewn cyfnod o saith mlynedd o'r dyddiad y defnyddiwyd yr eiddo neu yr oedd ar gael i'w osod:

- gwerthwyd yr eiddo, neu
- caniateir prydles hir am swm cyfalaf, neu
- peidiodd yr eiddo â chael ei ddefnyddio at ddibenion busnes, neu
- cafodd yr eiddo ei ddymchwel neu ei ddinistrio, neu
- bu farw'r person a dalodd am y gwaith adnewyddu, ac
- mae'r derbyniadau a gafwyd trwy waredu'r eiddo hwnnw yn fwy na'r hyn sy'n weddill o'r gwariant sydd heb dderbyn rhyddhad

bydd tâl mantoli'n codi. Swm yr hyn a godir bydd, y derbyniadau llai unrhyw beth sy'n weddill o'r gwariant sydd heb dderbyn rhyddhad (neu'r derbyniadau'n unig os yw'r gweddill yn 'dim'). Dylid cynnwys cyfanswm unrhyw dâl mantoli ar gyfer BPRA ym mlwch 29 hefyd.

Blwch 30 ***Lwfans Buddsoddi Blynyddol***

Gallwch hawlio lwfans cyfalaf newydd a elwir yn 'Lwfans Buddsoddi Blynyddol' (LBB – *AIA yn Saesneg*) os gwnaethoch brynu cyfarpar (ond nid ceir), hyd at swm blynyddol o £100,000. Ychwanegwch gost y cyfarpar at ei gilydd ac os yw cyfanswm y gost yn £100,000 neu'n llai, gallwch hawlio 100% o'r swm llawn hwnnw fel eich LBB. Os bydd cyfanswm y gost yn fwy na £100,000, yna gallwch hawlio hyd at £100,000 o'r cyfanswm fel eich LBB.

Pan fyddwch yn defnyddio eitem o gyfarpar at ddibenion busnes yn ogystal â phreifat, rhaid i'r LBB a hawlir gael ei ostwng gan y gyfran ar gyfer defnydd preifat.

Enghraifft 1

Mae Gwilym yn prynu ychydig o offer am £5,000 a fan sy'n costio £10,000. Caiff yr offer eu defnyddio ar gyfer y busnes yn unig. Defnyddir y fan 60% o'r amser ar gyfer busnes a 40% ar gyfer moduro preifat. Gan fod cyfanswm y gost yn llai na £100,000, gall Gwilym hawlio'r swm llawn fel LBB.

Fodd bynnag, oherwydd bod y fan yn cael ei defnyddio at ddibenion preifat, rhaid i Gwilym gyfyngu swm yr LBB y mae'n ei hawlio ar gyfer y fan i adlewyrchu'r defnydd preifat. Mae hyn yn golygu mai £6,000 (£10,000 llai 40% am ddefnydd preifat) yw'r LBB y gall e hawlio. Cyfanswm ei hawliad am LBB yw £11,000 (£5,000 ar gyfer yr offer yn ogystal â £6,000 am y fan).

Nodwch gyfanswm yr LBB ym mlwch 30.

Blwch 31 ***Lwfans Adnewyddu Adeiladau Busnes (BPRA)***

Daeth y cynllun BPRA i rym o 11 Ebrill 2007. O'r dyddiad hwnnw ac am gyfnod o bum mlynedd os byddwch yn trawsnewid, adnewyddu neu'n atgyweirio adeiladau busnes mewn Ardal Gynorthwyedig sydd heb eu defnyddio am o leiaf blwyddyn cyn i'r gwaith ddechrau ac o ganlyniad cânt eu defnyddio at ddibenion busnes unwaith eto, gallwch hawlio lwfans o 100% yn erbyn costau a dalwyd yn amodol ar y rheolau canlynol.

Mae fwy o wybodaeth ynglŷn â BPRA a'r amodau sy'n rhaid i chi eu bodloni i hawlio'r lwfans, ar gael yn y Capital Allowances Manual (CA45000 ymlaen) yn **www.hmrc.gov.uk/manuals/camanual/index.htm**.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Ni ellir hawlio BPRA:
- os oedd y gwariant adnewyddu yn ymwneud ag eiddo preswyl, neu
- am gostau caffael y tir neu'r adeilad, ymestyn yr adeiladau neu ddatblygu tir nesaf at adeiladau'r busnes.

Blwch 32 ***Pob lwfans cyfalaf arall***

Gallai fod hawl gennych hefyd i fathau eraill o lwfansau cyfalaf yn dibynnu ar y gost, math o ased, ac amodau cymhwyso, er enghraifft:
- 20% 'lwfans ar bapur' neu *'writing down allowance'*
- 10% 'lwfans ar bapur'
- 'lwfans cronfeydd bychain'
- 100% lwfansau cyfalaf
- lwfans blynyddol cyfyngedig ar gyfer ceir sy'n costio mwy na £12,000 a brynwyd cyn 6 Ebrill 2009
- lwfans adeiladau amaethyddol neu ddiwydiannol – sy'n ddyledus ar unrhyw adeiladau amaethyddol, adeiladau diwydiannol a rhai adeiladau penodol eraill.

Nodwch gyfanswm y lwfansau cyfalaf hyn ym mlwch 32.

Mae'r nodiadau a welir isod a Thaflen Gymorth 252 *Capital allowances and balancing charges* yn rhoi mwy o wybodaeth ynglŷn â'r lwfansau hyn.

20% 'lwfans ar bapur'

Pan fyddwch wedi gwario mwy na £100,000 mewn blwyddyn ar gyfarpar, neu (ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010) rydych wedi prynu car gydag allyriad CO_2 o 160g/km neu lai, ychwanegwch yr holl wariant at ei gilydd i greu 'prif gronfa' gostau. Didynnwch unrhyw Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB) hyd at £100,000 (ac eithrio unrhyw wariant ar geir). Os oes gennych brif gronfa o'r flwyddyn flaenorol, ychwanegwch werth y gronfa honno at y swm yn y brif gronfa sydd ar ôl gennych ar ôl didynnu LBB. Didynnwch werth unrhyw werthiadau a wnaethoch yn ystod y flwyddyn.

Gallwch wedyn hawlio lwfans ar bapur o 20% o werth yr hyn sy'n weddill yn y gronfa (oni bai fod y gwariant yn wariant 'cyfradd arbennig' – gweler y nodyn ar gyfer lwfans ar bapur o 10% isod). Gweler tudalen UKPN 12 ar gyfer ceir a brynwyd cyn 6 Ebrill 2009.

10% 'lwfans ar bapur'

Bydd rhai eitemau yn gymwys dim ond ar gyfer lwfansau ar bapur o 10% ac mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi mewn cronfa 'cyfradd arbennig' ar wahân. Yr eitemau mwyaf cyffredin yw ceir a brynwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2009 gydag allyriad CO_2 sydd dros 160g/km, a rhai nodweddion annatod adeilad, er enghraifft systemau trydanol.

Lwfans cronfeydd bychain

Os yw gweddill naill ai'r brif gronfa neu'r gronfa gyfradd arbennig ar ôl hawlio LBB ynghyd ag unrhyw weddill a gariwyd ymlaen o unrhyw flwyddyn flaenorol, llai unrhyw swm a gawsoch drwy waredu cyfarpar nad ydych yn ei ddefnyddio bellach (er enghraifft, drwy ei werthu), yn £1,000 neu lai, gallwch hawlio'r swm llawn hwnnw fel lwfans cronfeydd bychain yn lle'r lwfans ar bapur o 20%.

Lwfansau 100%

Efallai y bydd gennych hawl hefyd i lwfans blwyddyn gyntaf o 100% os ydych wedi prynu rhai technolegau arbed ynni penodol, er mwyn eu defnyddio yn y busnes gosod eiddo. Maen nhw ar gael er mwyn prynu:
- technolegau dynodedig ar gyfer arbed egni ac sy'n ddŵr-effeithlon
- ceir newydd sydd heb eu defnyddio gydag allyriad CO_2 isel sy'n llai na 110g/km

- cyfarpar ar gyfer ail-lenwi cerbydau gyda nwy naturiol, bionwy neu danwydd hydrogen
- o 6 Ebrill 2010 cerbydau cludo nwyddau newydd sydd heb eu defnyddio o'r blaen gydag allyriad sero.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.eca.gov.uk**

Efallai y byddwch chi hefyd yn gallu hawlio lwfansau 100% am droi llefydd uwchben siopau ac adeiladau masnachol eraill sy'n wag neu sy'n cael eu tan ddefnyddio yn fflatiau ar gyfer eu gosod.

Ceir

Lwfans blynyddol cyfyngedig ar gyfer ceir sy'n costio mwy na £12,000 a brynwyd cyn 6 Ebrill 2009

Os prynoch gar a gostiodd mwy na £12,000 cyn 6 Ebrill 2009, ni allwch hawlio lwfans ar bapur sy'n fwy na £3,000 mewn unrhyw un flwyddyn ar ei gyfer. Rhaid cyfyngu'r lwfans ar bapur o 20% i uchafswm o £3,000, sy'n cael ei ostwng ymhellach os defnyddir y car at ddibenion preifat (gweler isod). Rhowch bob car sy'n costio mwy na £12,000 mewn 'cronfa geir' ar wahân a pharatowch gyfrifiad ar wahân ar gyfer pob un. Dylech barhau i wneud hyn am ba hyd bynnag y bydd y car yn eiddo i chi, neu tan 6 Ebrill 2014.

Enghraifft 2

Yn Ionawr 2009 prynodd Rhod gar am fwy na £12,000. Defnyddiwyd y car 60% at ddefnydd busnes a 40% at ddefnydd preifat. Nid yw ceir yn gymwys am yr LBB. Ni all y car fynd i mewn i'r brif gronfa oherwydd cafodd y car ei brynu cyn 6 Ebrill 2009 gan gostio mwy na £12,000, ac felly caiff ei roi yn ei 'cronfa ased unigol' ei hun. Gan fod y car wedi costio mwy na £12,000 gall Rhod hawlio lwfansau cyfalaf o hyd at £3,000 yn unig (nid 20% o'i werth oherwydd byddai hynny'n fwy na £3,000). Ar ddechrau 2010-11 mae'r gwerth a ddygwyd ymlaen yn y gronfa ased unigol (car) yn £16,000.

2010-11	**Cronfa geir**	**Lwfans**
Cost y car	£16,000	
Lwfans blynyddol (£16,000 x 20% (£3,200) wedi ei gyfyngu i £3,000)	£3,000	£1,800 (60%)
Gwerth a gariwyd ymlaen	£13,000	

Oherwydd bod Rhod yn defnyddio'r car 40% at ddefnydd preifat, cyfyngir y £3,000 i gyfran fusnes o 60%, neu £1,800.

Ceir a brynwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2009

Ar gyfer ceir a brynwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2009, mae'r lwfansau y gallwch hawlio yn dibynnu ar allyriad carbon deuocsid (CO_2) y car. Ceir gydag allyriad CO_2:
- dros 160g/km – dylid rhoi'r rhain yn y gronfa gyfradd arbennig a byddant yn gymwys am lwfans ar bapur o 10%
- o 160g/km neu lai – dylid rhoi'r rhain yn y brif gronfa a byddant yn gymwys am lwfans ar bapur o 20%
- o 110g/km neu lai – mae'r rhain yn gymwys am lwfans blwyddyn gyntaf o 100%.

Defnydd preifat

Os oes gennych gar a ddefnyddiwch ar fusnes ac at ddefnydd preifat, rhaid rhoi'r gost neu'r gwerth mewn cronfa ased unigol ar wahân. Cyfrifwch y lwfansau priodol sy'n ddyledus (ond nid y LBB) yn dibynnu ar bryd prynwyd y car, cost y car ac (os prynwyd y car ar ôl 5 Ebrill 2009) yr allyriad CO_2. Rhaid i chi wedyn ostwng y lwfansau i gyfateb a'r gyfran at ddefnydd busnes.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â lwfansau cyfalaf ar gyfer ceir ac enghreifftiau ar Daflen Gymorth 252 *Capital allowances and balancing charges*.

Blwch 33 ***Lwfans Arbed Ynni i Landlordiaid***

Gallwch wneud cais am osod
- defnydd ynysu yn y llofft, mewn waliau ceudod ac ar waliau solet
- defnydd ynysu rhag drafft ac ynysu ar gyfer systemau dŵr poeth

mewn eiddo preswyl ar osod (ac eithrio eiddo lle'r ydych yn hawlio'r swm am ryddhad rhentu ystafell neu eiddo a ddefnyddir fel llety gwyliau wedi'i ddodrefnu). Yr uchafswm a ganiateir ar gyfer cyfanswm y gwariant ar yr eitemau hyn yw £1,500 ar gyfer bob eiddo ar osod. Os ydych yn berchen ar yr adeilad sy'n cael ei osod, ar y cyd gydag eraill, ac mae cyfanswm y gwariant ar yr eiddo ar osod yn uwch na £1,500 dylech hawlio eich cyfran chi yn unig o'r £1,500.

Blwch 34 ***Lwfans traul o 10%***

Os ydych yn gosod unrhyw lety preswyl wedi'i ddodrefnu (heblaw am 'lety gwyliau wedi'i ddodrefnu') ni allwch hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer unrhyw beiriannau, celfi neu fân ddodrefn a gyflenwyd. Ni allwch ychwaith hawlio ar gyfer unrhyw osodiadau sy'n rhan o'r adeilad. Yn lle hynny gallwch hawlio didyniad adnewyddu mewn perthynas ag adnewyddu pob eitem o'r fath ym mlwch 23 – Adnewyddiadau. Neu, gallwch hawlio'r lwfans traul o 10% ym mlwch 34. Ond ni allwch hawlio'r ddau.

Mae'r lwfans traul yn hafal i 10% o'r rhent net ar ôl didynnu taliadau neu wasanaethau y byddai tenant fel arfer yn eu hysgwyddo ond sydd mewn ffaith yn cael eu talu gennych (er enghraifft Treth Gyngor).

Blwch 35 ***Swm rhyddhad Rhentu Ystafell***

Os ydych wedi cynnwys incwm Rhentu Ystafell ym mlwch 18, nodwch y swm a eithrir o dan Rentu Ystafell rydych yn ei hawlio ym mlwch 35 (naill ai £4,250 neu £2,125 os ydy'r eiddo wedi ei osod ar y cyd). Gweler y nodiadau ar dudalen UKPN2.

Blwch 36 ***Elw wedi'i addasu am y flwyddyn***

Defnyddiwch y Daflen Waith ar dudalen UKPN14 i gyfrifo'r elw wedi'i addasu.

Blwch 37 ***Colled a ddygwyd ymlaen ac a ddefnyddiwyd yn erbyn elw eleni***

Nodwch ym mlwch 37 unrhyw golled a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2010 er mwyn lleihau'r elw. Byddai hwn wedi ei gofnodi ym mlwch 41 ar dudalennau *Eiddo yn y DU* 2009-10. Dylech eithrio unrhyw swm a ddygwyd ymlaen rydych nawr am osod yn erbyn cyfanswm yr incwm ar gyfer 2010-11. Dylech nodi hwn ym mlwch 40 cyhyd a'ch bod wedi bodloni'r amodau ar gyfer gwrthbwyso.

Blwch 38 ***Elw trethadwy am y flwyddyn***

Os oes gennych elw ym mlwch 36, dylech ddidynnu unrhyw golledion a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach (blwch 37) i bennu eich elw trethadwy am y flwyddyn. Os yw'r ffigur ym mlwch 37 yn fwy na'r ffigur ym mlwch 36 gadewch flwch 38 yn wag. Dylech gynnwys gweddill y golled hon, ar ôl didynnu'r elw, ym mlwch 41.

Blwch 39 ***Colled wedi'i haddasu am y flwyddyn***

I gyfrifo'r golled wedi'i haddasu defnyddiwch y Daflen Waith ar dudalen UKPN 14.

Taflen Waith ar gyfer blwch 36 neu flwch 39

Cyfanswm y rhenti *blwch 18*	A	£
Premiymau er mwyn caniatáu prydles *blwch 20*	B	£
Premiymau gwrthdro a chymelldaliadau *blwch 21*	C	£
Addasiad ar gyfer defnydd preifat *blwch 28*	D	£
Taliadau mantoli *blwch 29*	E	£
Cyfanswm *blychau A i E*	F	£

Llai

Colledion llety gwyliau wedi'i ddodrefnu *blwch 15*	G	£
Treuliau *blychau 22 i 27*	H	£
Lwfansau cyfalaf *blwch 30 + blwch 32*	I	£
Lwfans Adnewyddu Adeiladau Busnes *blwch 31*	J	£
Lwfans Arbed Ynni i Landlordiaid *blwch 33*	K	£
10% lwfans traul *blwch 34*	L	£
Rhyddhad Rhentu Ystafell *blwch 35*	M	£
Cyfanswm *blychau G i M*	N	£
Elw neu golled wedi'i addasu *blwch F llai blwch N*	O	£

Os yw blwch O yn elw, copïwch flwch O i flwch 36. Os yw blwch O yn golled, copïwch flwch O i flwch 39.

Blwch 40 *Colled a wrthbwyswyd yn erbyn cyfanswm yr incwm yn 2010-11*

Gallwch wrthbwyso'r golled ym mlwch 39 yn erbyn cyfanswm yr incwm dim ond:

- os yw'r golled yn codi o ganlyniad i dreuliau amaethyddol penodol ac mae eich busnes gosod yn cynnwys tir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddol (gweler Taflen Gymorth 251 *Agricultural land*), neu
- os yw'r golled yn codi o ganlyniad i geisiadau am lwfansau cyfalaf (ac mae eich lwfansau cyfalaf ym mlychau 30 i 32 yn fwy na'r taliadau mantoli ym mlwch 29). Cyfyngir y golled y gellir ei gwrthbwyso i'r isaf o:
  - blychau 30 i 32 llai blwch 29, neu
  - y golled ym mlwch 39, neu
  - swm eich incwm arall.

Nodwch ym mlwch 40 y swm rydych am ei wrthbwyso ynghyd â swm unrhyw golled tebyg a ddygwyd ymlaen o'r llynedd (gweler y nodiadau ar gyfer blwch 37).

Blwch 41 *Colled i'w chario ymlaen i'r flwyddyn ddilynol, gan gynnwys colledion nas defnyddiwyd ac a ddygwyd ymlaen*

Nodwch ym mlwch 41 unrhyw golledion sydd ar ôl na chawsant eu gwrthbwyso mewn unrhyw ffodd arall. Os nodwyd elw gennych ym mlychau 36 a 38 ni fydd colledion i'w cario ymlaen.

Os nodwyd elw gennych ym mlwch 36 a gadawyd blwch 38 yn wag, nodwch weddill y golled a ddygwyd ymlaen ym mlwch 41 (blwch 37 llai blwch 36).

Os nodwyd colled gennych ym mlwch 39, didynnwch unrhyw ran o'r golled hon a wrthbwyswyd yn erbyn cyfanswm yr incwm ym mlwch 40, ac ychwanegwch y canlyniad at y colledion a ddygwyd ymlaen ym mlwch 37. Nodwch y cyfanswm ym mlwch 41.